O'r nef y daeth, Fab di-nam

Caneuon Ffydd: Rhif 276

O'r nef y daeth, Fab di-nam,
i'r byd yn dlawd heb feddu dim,
i weini'n fwyn ar y gwan,
ei fywyd roes i ni gael byw.

Hwn yw ein Duw, y Brenin tlawd,
fe'n geilw oll i'w ddilyn ef,
i fyw bob dydd fel pe'n anrheg wiw o'i law:
fe roddwn fawl i'r Brenin tlawd.

Ei ddagrau'n lli yn yr ardd,
fy meichiau trwm gymerodd ef:
ei galon fawr oedd yn drist,
"D'ewyllys di fo'n ben," medd ef.

Gwêl ddwylo briw, gwêl ei draed,
ei greithiau'n brawf o'i aberth drud;
y dyner law leddfai boen,
a rwygwyd gan yr hoelion llym.

Yn isel fryd gweini wnawn
a'i ddewis ef yn Arglwydd pawb:
wrth estyn llaw at fy mrawd
cydnabod wnawn ein Brenin tlawd.

GRAHAM KENDRICK *cyf.* SIÔN ALED

MYFYRDOD

Rheoli mewn rhwysg a chyfoeth gan fynnu ufudd-dod iddo'i hun oherwydd ei safle y mae brenin daearol. Er bod Iesu drwy'r Testament Newydd yn cael ei alw'n Frenin, yn 'frenin tangnefedd' (Heb. 7:2); yn 'frenin y cenhedloedd' (Dat. 15:3), ac yn 'frenin y brenhinoedd' (Dat. 17:14) i enwi ond ychydig, ni allwn beidio â sylwi bod natur ei lywodraeth yn wahanol i frenhinoedd daearol. Nid yw ei deyrnasiad yn dibynnu ar rym, er y gallai'n hawdd ei ddefnyddio. Fe gofiwn ei gerydd i Pedr yng ngardd Gethsemane pan ddefnyddiodd hwnnw ei gleddyf i geisio achub cam ei feistr: 'A

wyt yn tybio na allwn ddeisyf ar fy Nhad, ac na roddai i mi yn awr fwy na deuddeg lleng o angylion?' (Mth. 26:53). Y mae ei deyrnas a'i deyrnasiad yn gyfan gwbl wahanol i ddim a welwn ni yma ar y ddaear, fel y dywedodd wrth Pilat: 'Nid yw fy nheyrnas i o'r byd hwn' (Ioan 18:36). Ei watwar fel Brenin yr Iddewon a wnaethpwyd adeg ei groeshoelio, ac yn wir dyna oedd y cyhuddiad yn ei erbyn a roddwyd mewn tair iaith ar y groes: 'Iesu o Nasareth, Brenin yr Iddewon' (Ioan 19:19).

Hanes y 'Brenin tlawd' hwn a gawn yn yr emyn diweddar hwn. Mae Siôn Aled wedi gwneud cymwynas werthfawr â ni wrth gyfieithu 'The Servant King' Graham Kendrick i'r Gymraeg. Ceir hanes Iesu yn ei ddarostwng ei hun gan ddod 'i'r byd yn dlawd, heb feddu dim' a nodi diben hynny 'i weini'n fwyn ar y gwan' ac i roi ei fywyd er mwyn i ni gael byw: 'fe'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes'. Dyna eithaf ei ddarostyngiad yn ôl Paul sy'n olrhain darostyngiad Iesu a'i ddyrchafiad wedyn yn sgil ei fuddugoliaeth ar angau yn Philipiaid 2:6–11.

Sylwn arno yng ngardd Gethsemane yn yr ail bennill, yn gwybod mai ewyllys ei Dad oedd i'w gwneuthur. Mae'n ufudd wedyn hyd angau yn y pennill nesaf a chawn ein cymell i sylwi ar ei draed a'i ddwylo – traed yr hwn oedd 'mor weddaidd ar y mynyddoedd' am ei fod yn 'cyhoeddi iachawdwriaeth' (Eseia 52:7), a'r dwylo oedd wedi eu hestyn mewn tosturi i gyffwrdd â chymaint o rai mewn angen (Marc 1:41), yn cael eu rhwygo 'gan yr hoelion llym'. Mae'r darlun yn un byw ac yn abl i'n cyffwrdd ninnau wrth inni fyfyrio ar ei 'aberth drud'.

Down yn ein holau yn y pennill olaf at anogaeth Paul inni yn ei lythyr at y Philipiaid: 'Amlygwch yn eich plith eich hunain yr agwedd meddwl honno sydd, yn wir, yn eiddo i chwi yng Nghrist Iesu' (Phil. 2:5). Agwedd y gwas oedd honno. Dyma'r gwas perffaith na fu mo'i berffeithiach, y cawn ni sôn amdano ym mhroffwydoliaeth Eseia (42:1 ymlaen, ac yn enwedig pennod 53). Yr un nas gorfodwyd i fod yn was, ond a ddewisodd o'i wirfodd ei hun ei wneud ei hun yn was. Ein braint yw cael gweini i eraill yn ei enw Ef a chael 'cydnabod . . . ein Brenin tlawd' wrth wneud hynny.

GWEDDI

Fy Arglwydd a'm Brenin, boed yr un agwedd meddwl ynof fi ag a gafwyd ynot ti wrth iti ddod atom yn null gwas, gan fod yn ufudd hyd angau. Rho gymorth, rho nerth, a rho dy ras imi fod yn debyg i ti. Amen.